Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cynllun Setliad yr UE yng Nghymru (Mehefin 2022)

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | 21 Tachwedd 2022
Equality and Social Justice Committee | 21 November 2022

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **2**

**1. Cefndir** .......... **3**

**2. Yr ystadegau chwarterol diweddaraf** .......... **3**

Ceisiadau a gafwyd erbyn 30 Mehefin 2022 .......... 3

Ceisiadau y penderfynwyd yn eu cylch .......... 3

Canlyniadau llwyddiannus .......... 3

**3. Dinasyddion â statws preswylydd cyn sefydlu: ail gais i aros 4**

Troi statws preswylydd cyn sefydlu yn statws preswylydd sefydlog .......... 6

Achos yn dechrau yn yr Uchel Lys .......... 6

**4. Ceisiadau hwyr** .......... **6**

**5. Dim cais** .......... **7**

**6. Wcráin** .......... **7**

**7. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad blynyddol** .......... **8**

**8. Y camau nesaf** .......... **9**

# Cyflwyniad

Cynllun Llywodraeth y DU yw'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE; rhaid i ddinasyddion Ewrop wneud cais iddo er mwyn aros yn y DU ar ôl Brexit.

Mae hawliau dinasyddion yn rhannau allweddol o gytundebau y daethpwyd iddynt rhwng y DU, yr UE a gwledydd Ewropeaidd eraill fel rhan o Brexit. Mae hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU yn cael eu gwarantu gan gytundebau gyda'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gadw at y cytundebau hyn ac mae Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithgareddau sy'n ymwneud â'r Cynllun yng Nghymru.

Caiff ystadegau ar y ceisiadau i'r Cynllun eu cofnodi gan Lywodraeth y DU. Cyhoeddir ystadegau lefel uchel bob mis a chyhoeddir ystadegau manwl, gan gynnwys data ar gyfer Cymru, bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystadegau'r Cynllun sy'n ymwneud â Chymru hyd at 30 Mehefin 2022. Darperir adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor i lywio ei waith monitro ar y mater hwn.

# 1. Cefndir

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, roedd yn rhaid i ddinasyddion Ewrop a oedd yn byw yng Nghymru cyn 31 Rhagfyr 2020 wneud cais i aros erbyn 30 Mehefin 2021.

Mae hyn yn berthnasol i ddinasyddion Aelod-wladwriaethau'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir ond nid dinasyddion Iwerddon, sydd wedi'u heithrio o dan drefniadau ar wahân. Mae nifer y dinasyddion o'r gwledydd hyn sy'n byw yn y DU yn anhysbys, sy'n golygu nad oes neb yn gwybod faint o geisiadau y dylid ei ddisgwyl.

Ers ei lansio, mae bron 6.7 miliwn o geisiadau wedi cael eu cyflwyno i Gynllun y DU. Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws 'preswylydd sefydlog' neu statws 'preswylydd cyn sefydlu'. Am gefndir, gweler erthygl flaenorol gan Ymchwil y Senedd.

# 2. Yr ystadegau chwarterol diweddaraf

## Ceisiadau a gafwyd erbyn 30 Mehefin 2022

Hyd at 31 Mawrth, cyflwynwyd 107,860 o geisiadau o Gymru, gan gynnwys 18,880 o geisiadau ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed, o'u cymharu â'r 95,000 o ddinasyddion cymwys yr amcangyfrifwyd yr oedd angen iddynt wneud cais.

## Ceisiadau y penderfynwyd yn eu cylch

Cafwyd 104,910 o geisiadau benderfyniad erbyn y terfyn ar gyfer yr adroddiadau ystadegol a chyfeirir atynt fel 'ceisiadau a gwblhawyd'.

## Canlyniadau llwyddiannus


Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws 'preswylydd sefydlog' neu statws 'preswylydd cyn sefydlu'. Gall dinasyddion sy'n breswylwyr sefydlog a'r rhai sy'n breswylwyr cyn sefydlu weithio yn y DU, a bydd gwasanaethau gofal iechyd, addysg ac arian cyhoeddus ar gael iddynt. At hynny, gallant deithio i mewn ac allan o'r DU a gwneud cais am ddinasyddiaeth. Fodd bynnag, ni all dinasyddion â statws cyn sefydlu ddod ag aelodau o'r teulu i ymuno â hwy.

Ers i'r Cynllun agor hyd at 30 Mehefin, rhoddwyd **statws preswylydd sefydlog i 56.5 y cant o ymgeiswyr yng Nghymru**, a rhoddwyd **statws preswylydd cyn sefydlu i 36.7 y cant ohonynt**.

Cofnodir ceisiadau aflwyddiannus hefyd. O Gymru, cafodd 2.6 y cant eu gwrthod (2,560 o geisiadau a gwblhawyd), cafodd 1.7 y cant eu tynnu yn ôl neu eu dileu (2,020 o geisiadau a gwblhawyd), ac roedd 1.9 y cant yn annilys (2,000 o geisiadau a gwblhawyd).

Mae'r ffeithlun isod yn dangos canran a nifer y ceisiadau o Gymru. Mae'n dangos a gawsant eu cyflwyno cyn/ar ôl y dyddiad cau, a benderfynwyd yn eu cylch ("a gwblhawyd") ai peidio, ac mae'n dangos canlyniad y ceisiadau gan ddinasyddion Ewrop yng Nghymru hyd at 30 Mehefin 2022.

**Ceisiadau i'r Cynllun o Gymru yn ôl dyddiad, ceisiadau a gwblhawyd a chanlyniadau gan ddangos y canrannau a'r niferoedd:**





Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol Llywodraeth y DU ar gyfer Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Mawrth 2022

## 3. Dinasyddion â statws preswylydd cyn sefydlu: ail gais i aros

Daw statws preswylydd cyn sefydlu i ben ar ôl pum mlynedd, a rhaid ei droi'n statws preswylydd sefydlog drwy wneud ail gais. Mae hyn yn golygu y bydd

angen i'r 38,120 o ddinasyddion a gafodd statws preswylydd cyn sefydlu wneud cais arall os ydynt am aros yng Nghymru ar ôl y terfyn amser.

Mae'r map isod yn dangos nifer y dinasyddion â statws cyn sefydlu yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru:



### Troi statws preswylydd cyn sefydlu yn statws preswylydd sefydlog

Mae nifer y bobl sy'n gwneud cais i droi eu statws preswylydd cyn sefydlu yn statws preswylydd sefydlog wedi'i chynnwys mewn ystadegau ar geisiadau ailadroddus.

Mae'r rhain yn dangos bod 384,470 o ddinasyddion â statws cyn sefydlu wedi newid i statws sefydlog. Nid oes gwybodaeth ar gael am wahanol wledydd y DU. Gan hynny, nid ydym yn gwybod faint o geisiadau a gyflwynwyd gan ddinasyddion o Gymru sydd â statws preswylio cyn sefydlu ac sy'n ceisio newid eu statws.

### Achos yn dechrau yn yr Uchel Lys

Mae methu ag ailymgeisio yn arwain at golli hawl person i weithio, cael mynediad at dai, addysg a budd-daliadau yn awtomatig, a gallent fod yn agored i gael eu symud o'r DU.


Cred y corff sy'n gyfrifol am fonitro hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU, sef yr Awdurdod Monitro Annibynnol ("yr Awdurdod"), fod y golled awtomatig hon o hawliau yn anghyfreithlon oherwydd ei fod yn torri cytundebau'r DU â'r UE a gwledydd eraill Ewrop. Dechreuodd achos adolygiad barnwrol yr Awdurdod yn erbyn Llywodraeth y DU yn yr Uchel Lys ar 1 Tachwedd.

## 4. Ceisiadau hwyr

Mae'r Cynllun yn parhau ar agor ar gyfer ceisiadau hwyr, a ganiateir os oes gan unigolyn sail resymol dros fethu'r dyddiad cau. Gall enghreifftiau gynnwys rhiant sy'n methu â gwneud cais ar ran plentyn neu unigolyn sydd â chyflwr meddygol difrifol. Mae Llywodraeth y DU wedi addo diogelu hawliau'r rhai sydd â sail resymol dros fethu'r dyddiad cau.

Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau hwyr o Gymru o 6,180 ar 31 Mawrth 2022 i 8,030. Mae ceisiadau hwyr yn parhau'n gyson, gyda 590 ym mis Ebrill, 620 ym mis Mai, a 640 ym mis Mehefin, fel y gwelir yn y graff isod.

**Ceisiadau bob mis yng Nghymru i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**




Ffynhonnell: **Ystadegau chwarterol Llywodraeth y DU ar gyfer Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

# 5. Dim cais

Os nad yw unigolyn wedi gwneud cais i'r Cynllun ac yn dod i sylw awdurdodau'r DU, bydd yn cael 28 diwrnod o rybudd i wneud cais. Dywed Llywodraeth y DU na fydd pobl nad ydynt wedi gwneud cais ar ôl y cyfnod rhybudd o 28 diwrnod yn gymwys i gael gwaith, budd-daliadau na gwasanaethau ac ni fyddant yn pasio gwiriadau tenantiaeth.

Mae'n bosibl y cymerir camau gorfodi yn eu herbyn, er bod Llywodraeth y DU yn pwysleisio na fyddant yn cael eu hallgludo'n awtomatig.

# 6. Wcráin

Fel rhan o'r mesurau a gymerwyd mewn ymateb i ymosodiad Rwsia ar Wcráin, mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i Brif Weinidog y DU ymestyn y dyddiad cau ar gyfer trwyddedau teulu o dan y Cynllun i ganiatáu i bobl o Wcráin sy'n aelodau teulu dinasyddion Ewropeaidd cymwys i ddod i'r DU. Ni chafodd y cynllun ei ymestyn y tu hwnt i'w derfyn amser, sef 29 Mawrth 2022. Wedi hynny, defnyddir y meini prawf 'sail resymol' sy'n berthnasol i ymgeiswyr hwyr.

Mae ystadegau'r Cynllun yn dangos bod 13,520 o Wcraniaid wedi gwneud cais i'r Cynllun hyd at 31 Rhagfyr, a bod 13,090 wedi cael penderfyniad. Nid yw gwybodaeth ar gael ar gyfer gwahanol wledydd y DU.

# 7. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad blynyddol

Gofynnodd adroddiad blynyddol cyntaf y Pwyllgor gwestiynau allweddol am gymorth a gweithgareddau Llywodraeth Cymru o ran y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Gwnaeth Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith, a dywedodd fod Llywodraeth Cymru "yn sefyll gyda'r Pwyllgor wrth eirioli dros ddinasyddion yr UE / yr AEE a'r Swistir".

Dywedodd ei bod yn galonogol bod Llywodraeth Cymru eisoes yn ymdrin â chasgliadau allweddol yr adroddiad mewn rhyw fodd.

Mae'r tabl isod yn dangos pob casgliad ochr yn ochr ag ymateb y Gweinidog:

| Adroddiad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Pryderon yn ymwneud â **bylchau ystadegol** yn nifer y dinasyddion â statws cyn sefydlu sy'n gwneud cais i gael statws sefydlog.<br><br>A yw Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud **adnabod y dinasyddion cyn sefydlu** er mwyn darparu cymorth teilwredig, gan gynnwys nodiadau atgoffa i newid eu statws dros dro i statws parhaol cyn iddo ddod i ben. | Mae Llywodraeth Cymru **methu penderfynu pryd y bydd angen gwneud ail geisiadau.**<br><br>Mae wedi **gofyn am ddata manylach**, ond mae staff Llywodraeth y DU wedi dweud nad yw o fewn eu cylch gorchwyl i'w cyhoeddi. Ers hynny, mae'r **Swyddfa Gartref** wedi rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru y bydd yn **anfon nodiadau amserol at ddinasyddion â statws cyn sefydlu i'w hatgoffa** i wneud cais am statws sefydlog, a chadarnhaodd y **bydd y statws cyn sefydlu cyntaf yn dod i ben ganol 2023.**<br><br>**Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn manylu ar y camau a gymerwyd i gefnogi dinasyddion â statws cyn sefydlu**, gan gynnwys ymgyrchoedd digidol wedi'u targedu a dosbarthu cardiau i atgoffa pobl bod eu statws ar ddod i ben. |
| Gofyn am farn Llywodraeth Cymru am gynnydd bob mis yn y **ceisiadau hwyr** o Gymru yn ystod chwarter cyntaf 2022. | **Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion penodol** yn ymwneud â cheisiadau hwyr ac mae **Llywodraeth y DU wedi dweud wrthi "nad oes yr un dinesydd o'r UE yng Nghymru** |

| | |
|---|---|
| A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw broblemau'n ymwneud â hyn, neu unrhyw broblemau'n ymwneud â dinasyddion sydd heb wneud **cais.** | **wedi bod yn destun diddymu hawliau oherwydd peidio â gwneud cais i'r Cynllun hyd yma".** |
| Cyllid parhaus ar gyfer **gwasanaethau cyngor a chymorth am ddim** Llywodraeth Cymru i ddinasyddion Ewrop yng Nghymru sy'n gwneud cais i'r Cynllun. | Bydd cyngor a chymorth am ddim yn parhau tan **ddiwedd mis Mawrth 2023**. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu gwasanaethau cyngor y Cynllun yng Nghymru. |
| **Sut mae cefnogaeth yn cael ei chydgysylltu** rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. | **Cafodd rhai sefydliadau Cymreig gyllid gan Lywodraeth y DU** ond ni hysbyswyd Llywodraeth Cymru am gynlluniau cyllido Llywodraeth y DU ar gyfer y dyfodol.<br>Gwahoddir Llywodraeth y DU i Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun Llywodraeth Cymru. |
| Caeodd Llywodraeth y DU y cynllun trwydded teulu o dan y Cynllun ar gyfer **aelodau teuluoedd o Wcráin** sy'n ffoi rhag y rhyfel.<br>A yw Llywodraeth Cymru yn gwybod sawl Wcrainiad yng Nghymru a wnaeth gais i'r Cynllun. | Mae Llywodraeth Cymru yn **"siomedig iawn"** bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio ag ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sef 29 Mawrth 2022, er gwaethaf galwadau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i gadw'r llwybr hwn ar agor. Mae'r **llwybr hwn bellach ar gau** oni bai bod aelodau teulu yn gallu bodloni meini prawf culach ar gyfer ceisiadau hwyr.<br>Mae'r Gweinidog yn nodi nad yw data Llywodraeth y DU ond yn dangos ceisiadau 'nad ydynt yn rhai'r AEE', ac felly **nid yw'n gwybod faint o Wcreiniaid sydd wedi cyrraedd Cymru sydd wedi gwneud cais i'r Cynllun**. |
| Gofyn am brif ganfyddiadau a chasgliadau adolygiad Llywodraeth Cymru o adroddiad Migration Observatory. | Nid ymdriniwyd â'r mater. |
| Gofyn am gofnodion diweddaraf Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun Llywodraeth Cymru, sef cofnodion sydd fel arfer yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor. | Darparwyd cofnodion tri chyfarfod. |

# 8. Y camau nesaf

Yn ogystal â'i waith parhaus ar y Cynllun yng Nghymru, cytunodd y Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 y byddai'n gwneud y canlynol fel mater o drefn:

- cyhoeddi adroddiadau monitro rheolaidd ar hawliau dinasyddion Ewrop yng Nghymru, sydd ar gael ar wefan y Senedd; a
- rhannu ei adroddiadau â'r Awdurdod Monitro Annibynnol.